WYTHNOS 9

DEWISIADAU - Y BRENIN HEROD

CYN Y SGWRS

> *Croesawch bawb sydd wedi dod ac awgrymwch eu bod yn cymryd 20 munud i weithio trwy'r adran o'r Llawlyfr Astudio o'r enw TRAFODAETH GRŴP I gyda'u grŵp.*

Y SGWRS

> *Cyflwynwch y sgwrs. Dim ond canllaw cyffredinol yw'r geiriad isod. Diben y sgwrs yw helpu'r cyfranogwyr i barhau i ymgodymu â'r hyn y mae'n ei olygu i edifarhau a chredu, wrth i ni edrych ar wrthodiad Herod i wneud hyn.*

Rwy'n siŵr eich bod chi gyd wedi gweld cylchgronau fel hyn.

Daliwch gopi o gylchgrawn "Men's Health" neu debyg i fyny.

Mae gan bob rhifyn erthyglau am golli pwysau, cadw'n heini a bwyta'n iach. Nawr yn amlwg, er mwyn gweld unrhyw ganlyniadau, mae'n rhaid i chi ddewis gwneud yr hyn y maent yn ei ddweud. A dyna'r rhan anodd. Rydym mor aml yn dewis peidio â gwneud yr hyn y gwyddwn sy'n dda i ni. Ond yn anffodus, fel y dywedodd rhywun un tro, "Ni yw ffrwyth y dewisiadau yr ydym wedi'u gwneud." A dim ond edrych i lawr ar ein stumogau sy'n rhaid i rai ohonom ei wneud i weld gwirionedd y datganiad hwnnw.

Trowch i Marc pennod 6. Rydym yn mynd i edrych ar adnodau 17-28. Oherwydd dyma lle y darllenwn am stori Herod, dyn sy'n talu'r pris am y dewisiadau y mae'n eu gwneud.

> *Darllenwch Marc 6:17-28 allan yn uchel*

Mae'r darn arswydus hwn wedi tanio dychymyg arlunwyr a chyfansoddwyr dros y canrifoedd. Mae'n ddarlun arbennig o'r ffaith mai "ni yw ffrwyth y dewisiadau yr ydym wedi'u gwneud." Yn y darn hwn gwnaeth Herod ddau ddewis allweddol: dewisodd wrthryfela a dewisodd beidio ag edifarhau.

Dangoswch y penawdau canlynol.

Dewisodd Herod wrthryfela

Dewisodd Herod beidio ag edifarhau

DEWISODD HEROD WRTHRYFELA

Nid Herod Fawr yw hwn, y dyn wnaeth lofruddio'r holl fechgyn bach a oedd yn byw yn rhanbarth Bethlehem pan gafodd Iesu ei eni. Dyma ei fab, Herod Antipas, llywodraethwr Galilea. Nodwch nad gwraig gyntaf Herod yw Herodias. Roedd priodas gyntaf Herod wedi para dros ugain mlynedd. Ond yna, tra'r oedd yn ymweld â'i frawd Philip, cyfarfu â gwraig Philip, Herodias. Disgynnodd mewn cariad â hi a gofynnodd iddi ei briodi. Derbyniodd Herodias, ond ar yr amod y byddai'n cael gwared ar ei wraig bresennol. Cytunodd Herod.

Felly gadawodd hi ei gŵr, brawd Herod ei hun, a dod i fyw gyda Herod yng Ngalilea. Trwy wneud hyn, dewisodd Herod wrthryfela yn erbyn cyfraith Duw yn fwriadol. Ydy Herod yn gwybod ei fod yn gwrthryfela? Ydy, oherwydd mae Ioan - y gŵyr Herod ei fod yn "Ŵr cyfiawn a sanctaidd" - wedi bod yn dweud yn ddewr wrth y Brenin Herod "nid yw'n gyfreithlon iti gael gwraig dy frawd."

Efallai eich bod yn cofio mai Ioan yw'r dyn y gwnaethom ddarllen amdano ar ddechrau Efengyl Marc. Roedd yn cael ei adnabod hefyd fel Ioan Fedyddiwr, ac roedd yn dweud wrth bobl am Iesu ac yn eu hannog i droi oddi wrth eu pechod er mwyn cael maddeuant gan Dduw. Mae Herod yn rhoi Ioan yn y carchar, ond mae'n parhau i wrando arno: "a byddai'n gwrando arno'n llawen, er ei fod, ar ôl gwrando, mewn penbleth fawr." Nodwch nad yw'r gair "penbleth" yma yn golygu bod geiriau Ioan yn gymhleth. Mae'n golygu bod Herod wedi'i gynhyrfu gan ddysgeidiaeth Ioan.

Pam? Oherwydd roedd wedi amlygu gwrthryfel Herod. Efallai wrth i chi ddod i **Darganfod Cristnogaeth**, eich bod wedi cael profiad tebyg. Efallai eich bod wedi sylweddoli eich bod wedi bod yn byw eich bywyd er eich mwyn eich hun, gan anwybyddu'r Duw a'ch creodd. Efallai, yn yr un modd â Herod yn gwrando ar Ioan, eich bod yn gwrando ar eiriau Iesu a'ch bod eisiau parhau i wrando, er gwaetha'r aflonyddwch y maent yn eu hachosi.

Felly gwnaeth Herod barhau i wrando. Roedd hyn yn digwydd ddydd ar ôl dydd. Mae'n siŵr bod y bobl yn y palas yn meddwl bod eu brenin wedi troi'n grefyddol, yn gwrando ar y dyn rhyfedd hwn yn pregethu fel ag yr oedd. "yr oedd ar Herod ofn Ioan" i'r graddau ei fod hyn yn oed yn ei gadw "dan warchodaeth," ond roedd rhywbeth nad oedd Herod yn barod i'w wneud.

DEWISODD HEROD BEIDIO AG EDIFARHAU

Oedd, roedd yn barod i wrando ar Ioan. Roedd yn barod i gydnabod bod Ioan yn ddyn cyfiawn a sanctaidd. Roedd hyn yn oed yn barod i amddiffyn Ioan. Ond roedd un peth nad oedd yn barod i'w wneud. Nid oedd yn barod i roi'r gorau i'w odineb. Nid oedd yn barod i edifarhau. Cofiwch ein bod wedi gweld mai'r ymateb cywir, os yw'n gwrthryfel yn erbyn Duw yn cael ei amlygu, yw edifarhau. Yr ymateb cywir yw troi ar eich sawdl, troi oddi wrth eich pechod a gofyn i Dduw am faddeuant.

Ond nid oedd Herod yn barod i wneud hynny.

Yna un diwrnod, ar ei ben-blwydd, mae Herod yn trefnu gwledd i'w bendefigion a'i gadfridogion a gŵyr blaenllaw Galilea. Sylwch ar ddisgrifiad Marc o'r wledd: "Daeth cyfle un diwrnod." Disgrifir pen-blwydd Herod fel cyfle. Mae'n gyfle i Herod edifarhau'n bendant a chyhoeddus, ond mae hefyd yn gyfle i Herodias gael gwared ar Ioan. Nodwch pwy sy'n manteisio ar y cyfle, a phwy sy'n colli cyfle.

Yn ystod y wledd, daw Salome, merch Herodias, i mewn a dawnsio o flaen yr holl ddynion. Mae gan y frawddeg "a phlesio Herod a'i westeion" awgrymiadau rhywiol. O ganlyniad i'w dawns mae'r brenin yn gwneud addewid ffôl i'r ferch ifanc hon. Mae'n dweud, yn adnod 23, "Beth bynnag a ofynni gennyf, rhof ef iti, hyd at hanner fy nheyrnas."

Ac rwy'n siŵr wrth iddo ddweud y geiriau hyn, bod ei holl ffrindiau yn chwerthin a churo ei gefn. Mae Salome yn rhedeg at ei mam Herodias - a ganiataodd i'w merch wneud hyn. "Am beth y caf ofyn? Diemwntau, aur, rhuddemau, neu'r dolydd hardd tua'r de er mwyn i ni sefydlu ffermydd a thiroedd mawr?" "Na, na," meddai ei mam, "gofynna am ben Ioan Fedyddiwr." Mae Herodias yn manteisio ar ei chyfle i gael gwared ar Ioan. Darllenwn: "A brysiodd yr eneth ar unwaith i mewn at y brenin a gofyn, 'Yr wyf am iti roi imi, y munud yma, ben Ioan Fedyddiwr ar ddysgl.'"

Wel, mae hynny'n tynnu'r wên oddi ar wyneb Herod. Rydym yn darllen ei fod "yn drist iawn." Ac, yn sydyn, down at y foment allweddol ym mywyd Herod. Mae Herod mewn sefyllfa hynod o beryglus. Os mai "ni yw ffrwyth y dewisiadau yr ydym wedi'u gwneud," yna bydd y dewis hwn yn effeithio'n fawr ar ddyfodol Herod. Ac mae'n ddewis hynod o anodd ei wneud, o ystyried y llw y mae wedi'i dyngu, a'r holl westeion y mae'n ceisio gwneud argraff arnynt.

Ond dyna ni. Mae naill ai'n dweud, "Edrychwch, ni ddylwn i fod wedi tyngu'r llw y gwnes i ei dyngu - roedd yn beth gwirion i'w wneud. Alla i ddim lladd Ioan. Mae'n ddyn da. Rwy'n gwybod bod y pethau y mae wedi'u dweud wedi bod yn anodd eu derbyn, ond mae bob amser wedi dweud y gwir. Wna i ddim ei ladd." Neu, ynteu, gall roi mewn i'r pwysau mawr gan y bobl o'i amgylch, gan gogio chwerthin gyda'i holl westeion, a ffrwyno'i gydwybod unwaith eto.

Beth fydd ei ddewis? Mae adnod 26 yn dweud, "Aeth y brenin yn drist iawn, ond oherwydd ei lw, ac oherwydd y gwesteion, penderfynodd beidio â thorri ei air iddi." Er cymaint yr oedd yn ofni Ioan, roedd yn ofni ei westeion fwy. Mae adnod 27 yn mynd ymlaen i ddweud, "Ac yna anfonodd y brenin ddienyddiwr a gorchymyn iddo ddod â phen Ioan. Fe aeth hwnnw, a thorrodd ei ben ef yn y carchar, a dod ag ef ar ddysgl a'i roi i'r eneth; a rhoddodd yr eneth ef i'w mam."

Mae'n ofnadwy, ond ydyw? Yn ôl traddodiad fe wnaeth Herodias dynnu ei dafod allan a rhoi un o'i phinnau trwyddo: "Dyna ddysgu Ioan i siarad â mi fel 'na." O dan bwysau, mae'r brenin hwn wedi ildio. Mae wedi caniatáu i'r pen a'i rhybuddiodd a'r tafod a ddywedodd wrtho am droi oddi wrth ei wrthryfel ac edifarhau, gael eu torri i ffwrdd yn llythrennol.

Ond faint ohonom ni fyddai wedi gwneud rhywbeth tebyg yn sefyllfa Herod? Mae'n ffaith y byddai llawer iawn o bobl yn gwneud yr un peth yn union: pan ddaw'r amser iddynt wneud penderfyniad, maent yn gwadu'r hyn y maent yn gwybod sy'n iawn oherwydd eu bod yn ofni beth fyddai'u teulu yn meddwl, beth fyddai'u cydweithwyr yn ei wneud, neu beth fyddai'u ffrindiau yn ei ddweud. Neu oherwydd eu bod yn gwybod y bydd yn golygu newid arferion y maent yn hoff ohonynt.

Tybed ydych chi'n gweld y cymariaethau y mae Marc eisiau i ni eu gwneud rhwng Ioan ac Iesu? Roedd y ddau'n pregethu'r un neges: ei bod yn rhaid i ni droi oddi wrth ein gwrthryfel yn erbyn Duw a derbyn yr achubiaeth gariadus y mae ef wedi'i darparu. Roedd y ddau yn cael eu hamddiffyn gan ddynion pwerus: Herod a Philat, dau ddyn a oedd wedi ceisio aros yn ddiduedd ond a fethodd wneud hynny. A gwnaeth Ioan ac Iesu ddioddef marwolaethau treisgar o ganlyniad i hyn. Mae yna un gymhariaeth arall, wrth gwrs. Pam y cafodd Ioan ac Iesu eu lladd? Oherwydd yn y ddau achos nid oedd pobl yn fodlon edifarhau ac nid oeddent yn fodlon gwneud y peth iawn.

Yn Marc penodau 1 i 3, gwelsom bŵer ac awdurdod anhygoel Iesu. Ym mhenodau 4 a 5, gwelsom bŵer ei ddysgeidiaeth a'i air. Er hynny, ar ddechrau pennod 6, gwelwn ef yn cael ei wrthod gan "fro ei febyd." Roedd eu cynefindra ag Iesu yn meithrin dirmyg, roeddent wedi'u tramgwyddo ganddo, ac fe wnaethant ei wrthod. Ymateb Iesu yn y penodau dilynol yw mynd i bregethu mewn man arall. Mae'n dweud wrth ei ddisgyblion am wneud yr un peth, gan ddweud wrthynt am symud ymlaen os nad yw pobl yn fodlon gwrando. Dyna'r patrwm: bydd y neges yn cael ei gwrthod gan rai, a fydd yn eu tro yn cael eu gwrthod o ganlyniad i'w hymateb.

Yn ddiddorol iawn, mae Herod yn cael ei grybwyll am y tro olaf yn yr Efengylau, yn Luc pennod 23. Mae Luc yn cofnodi bod Pilat yn anfon Iesu at Herod ar ôl sylweddoli bod Iesu yn dod o'r ardal y mae Herod yn ei rheoli. Mae'r cyfarfod rhwng Herod ac Iesu yn argoelus, nid oherwydd yr hyn sy'n cael ei ddweud, ond yn hytrach oherwydd yr hyn sydd ddim yn cael ei ddweud.

Trowch gyda mi at Luc 23, adnod 8.

> *Darllenwch Luc 23:8-9 allan yn uchel.*

Daw amser, ar ôl gwrthod edifarhau dro ar ôl tro, pan na fydd cyfle i wneud hynny bellach. Mae'n hawdd gohirio'r peth, dweud nad oes gennym amser, meddwl bod gennym ormod i'w golli. Efallai eich bod yn meddwl ei bod yn well aros, y bydd amser mwy cyfleus yn y dyfodol. Wrth gwrs, dyw hi byth yn hawdd edifarhau. Ni fydd amser "cyfleus". Ac mae stori Herod yn ein hatgoffa efallai na chawn gyfle yn ddiweddarach.

Pan nad yw Herod yn cael ateb, mae ef a'i filwyr yn gwatwar Iesu trwy roi gwisg ysblennydd amdano a'i anfon yn ôl at Pilat, sy'n mwynhau'r jôc. Ac edrychwch ar adnod 12. Rydym yn darllen, "Daeth Herod a Philat yn gyfeillion i'w gilydd y dydd hwnnw; cyn hynny yr oedd gelyniaeth rhyngddynt." Dylai hyn fod yn rhybudd i ni: gall gwrthod galwad Iesu i edifarhau a chredu ennill cymeradwyaeth pobl eraill, gall hyd yn oed ennill ffrindiau i ni, ond yn y pen draw bydd yn golygu cael ein gwrthod gan Iesu.

AR DDIWEDD Y SGWRS

Dyma rai cwestiynau ar gyfer eich grwpiau

> *Dangoswch y cwestiynau canlynol a'u darllen allan yn uchel.*

- **Pam ydych chi'n meddwl y gwrthododd Herod edifarhau?**

- **Roedd pregethu Ioan wedi aflonyddu ar Herod yn fawr. Sut mae dysgeidiaeth Iesu yn gwneud i chi deimlo?**

> *Caniatewch 30 munud i'r grwpiau weithio gyda'i gilydd trwy'r adran yn y Llawlyfr Astudio o'r enw Trafodaeth Grŵp 2.*

AR DDIWEDD Y DRAFODAETH

Cyn yr wythnos nesaf, byddai'n gymorth mawr pe baech yn cwblhau'r adran ASTUDIO GARTREF yn eich Llawlyfr Astudio.